DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

PECYN ADDYSG GWRTH-HILIAETH

I'w ddefnyddio gyda'r DVD
DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

CYNNWYS

Defnyddio'r DVD a'r Pecyn Addysg 1

Nod y Pecyn 1

Addysg Wrth-hiliol a'r Cwricwlwm Cenedlaethol 1

Cyn Gwylio'r DVD 2

PENODAU:

Hiliaeth a Phêl-droed 3
Gwreiddiau Hiliaeth 5
Profiad o Hiliaeth 9
Ymdrin â Hiliaeth 13
Ymgyrchu yn Erbyn Hiliaeth 15

Cwestiynau a ofynnir yn aml 18

Cwis 21
(atebion ar dudalen 20)

Cydnabyddiaethau:

Ysgrifennwyd gan:

Sarah Soyei, Gav Sutherland, Jason Webber, a Laura Fleck.

Diolch hefyd i:

David Kendrick, Paul Burgess, Undeb Cenedlaethol yr Athrawon a Sefydliad Addysgol yr Alban.

Gallwch weld enwau Sefydliadau a Gwefannau defnyddiol ar y dudalen ddolenni ar **www.theredcard.org**

Manylion Cysylltu:

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth Cymru,

65 Ffordd Penarth, Grangetown, Caerdydd CF10 5DL

Ffôn: 02920 340 422
ebost: info@theredcardwales.org
www.theredcardwales.org

Rhif Elusen Gofrestredig: 1116971
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 5834708

© Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth

Rio Ferdinand

DEFNYDDIO'R DVD A'R PECYN ADDYSG

MAE IS-DEITLAU AR GAEL AR Y DVD. YN SYML, CYCHWYNNWCH Y FFILM AC YNA DEWISWCH IS-DEITLAU GYDA'CH LLYGODEN NEU'CH BOTYMAU.

Cafodd y pecyn hwn ei lunio i gyflenwi ac ychwanegu at yr wybodaeth sydd yn y DVD cysylltiedig. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r DVD Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth fel pecyn addysg yw ei sgrinio mewn adrannau. Hyd gyfan y ffilm yw 22 munud ac mae ganddi 5 prif bennod, yn dilyn cyflwyniad byr, y mae'r adrannau yn y pecyn hwn yn cyfateb â nhw.

Er ei bod hi'n anodd awgrymu un dull neu ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau, rydym wedi dewis rhai sylwadau allweddol a phwyntiau trafod perthnasol ar gyfer pob un o'r pum adran. Efallai y byddai cychwyn trafodaeth gyda'r dosbarth yn ymwneud â'r pwyntiau cychwyn rydym wedi'u hawgrymu yn rhoi cyflwyniad defnyddiol i'r gweithgaredd/gweithgareddau sydd wedi'u hawgrymu a fydd yn dilyn ymhob un o'r pum adran, a gall athrawon eu teilwra i gyfateb ag anghenion eu myfyrwyr. Mae brasamcan o'r amseriadau wedi'u nodi ar gyfer pob gweithgaredd ond, wrth gwrs, bydd hyd bob un yn amrywio yn dibynnu ar allu'r disgyblion.

Ffordd ddefnyddiol o gau pob adran yw'r drafodaeth grŵp sy'n dilyn: cymerwch amser i ofyn i'r disgyblion beth maent wedi'i ddysgu o'r adran hon ar y DVD a'r gweithgareddau.

Ar ddiwedd bob adran o'r pecyn mae cyfres o Ganlyniadau Dysgu sy'n dangos yr hyn y dylai'r bobl ifainc ei wybod, ei ddeall neu allu eu gwneud ar ôl cwblhau'r gweithgareddau a ddarparwyd.

Nod y pecyn yma yw diwallu anghenion Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Felly bydd y gweithgareddau wedi'u marcio gyda'r grŵp oedran y maent yn addas ar ei gyfer.

Allwedd Cynradd Uwchradd

Yn ychwanegol at 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' byddwch yn gweld bod modd cyrraedd y rhaglen ddogfen 'Hiliaeth a'r Gêm Brydferth' o ddewislen y DVD. Mae hon yn ychwanegol at gynnwys y pecyn hwn a'r brif ffilm addysgiadol, ond gall fod yn adnodd defnyddiol iawn, yn arbennig i ddisgyblion hŷn, i'w helpu i ddeall cyd-destun a chefndir rhai o'r straeon personol sydd yn y brif ffilm.

Wedi'i gynnwys hefyd mae'r animeiddiad buddugol o Gystadleuaeth Ysgolion Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2008.

Nid yw'r pecyn hwn yn adnodd trwyadl o bell ffordd, ac mae unrhyw wybodaeth na ellid ei chynnwys ar gael ar **www.theredcard.org**, lle byddwch yn gweld adran addysg a ddiweddarwn yn barhaol. Mae hon yn cynnwys manylion ein cystadleuaeth flynyddol i ysgolion.

NOD Y PECYN

- Sicrhau bod pobl ifainc yn dod yn gyfarwydd ag achosion a chanlyniadau hiliaeth a rhoi'r ystod o sgiliau iddynt y byddent eu hangen i herio hiliaeth
- Galluogi pobl ifainc i ddatblygu perthnasoedd da a pharchu'r gwahaniaethau rhwng pobl, beth bynnag fo eu hethnigrwydd
- Helpu pobl ifainc i baratoi ar gyfer chwarae rôl weithredol fel dinasyddion mewn cymdeithas amlhiliol ac amlddiwylliannol sy'n tyfu
- Darparu adnodd addysgu hawdd ei ddefnyddio i athrawon fel y gallent addysgu'r bobl ifainc ar gyfer yr uchod

ADDYSG WRTH-HILIOL A'R CWRICWLWM CENEDLAETHOL

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Mae'r gweithgareddau yn y pecyn hwn yn clymu'n agos iawn â'r cwricwlwm Dinasyddiaeth ac ABCh yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 ac mae'r meysydd penodol wedi'u hamlygu isod. Mae'r gweithgareddau hefyd yn addas ar gyfer y cwricwlwm yn y meysydd astudio dilynol: Celf a Dylunio, Dylunio a Thechnoleg, Saesneg, Hanes a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.

CA2 Dinasyddiaeth ac ABCh

- Datblygu hyder a chyfrifoldeb a manteisio i'r eithaf ar eu galluoedd 1a, 1c
- Paratoi i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion 2a, 2c, 2e, 2f, 2i, 2k
- Datblygu dull mwy iach a diogel o fyw 3f
- Datblygu perthnasoedd da a pharchu'r gwahaniaethau rhwng pobl 4a, 4b, 4d, 4e, 4f

CA3 a 4 Dinasyddiaeth

- Gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â dod yn ddinasyddion deallus 1b, 1i, 1j
- Datblygu sgiliau ymholi a chyfathrebu 2a, 2b, 2c
- Datblygu sgiliau cyfranogi a gweithredu cyfrifol 3a, 3b, 3c
- ABCh (canllawiau anstatudol) 1b, 1d, 2b, 2g, 3a, 3b, 3c, 3j

Mae'r pecyn hefyd yn gyfatebol â Chwricwlwm yr Alban a Chymru, gwelwch ein gwefan os gwelwch yn dda i gael rhagor o fanylion.

CYN GWYLIO'R DVD

Am fod trafod pynciau hiliaeth gyda myfyrwyr yn gallu bod yn anodd, byddai'n syniad da gwneud rhywfaint o waith paratoi cyn defnyddio ein hadnoddau. Dylai hyn gynnwys gosod rheolau sylfaenol cyn y sesiwn/sesiynau. Ni ddylai unrhyw un deimlo bod rhywun arall yn pigo arnynt, hyd yn oed os oes ganddynt farn wahanol iawn i'w cyd-ddisgyblion. Bydd athrawon yn gorfod gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl drafodaethau'n digwydd ar lefel wrthrychol.

Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw unrhyw wers yn dod yn llwyfan ar gyfer sylwadau hiliol neu debyg, ac ni ddylai'r ffaith fod angen cadw cydbwysedd fod yn rhywbeth sy'n atal safiad clir yn erbyn hiliaeth. Yn lle hynny, mae angen i fyfyrwyr ddeall bod rhai ffyrdd o ymddwyn, megis hiliaeth a bwlio, na ddylai neb eu goddef.

GWEITHGAREDDAU CYCHWYNNOL:

Mae'r ddau weithgaredd isod yn ddefnyddiol i 'dorri'r ia' er mwyn cyflwyno pwnc hiliaeth i ddosbarth sydd heb ystyried y pwnc hwnnw o'r blaen.

GWEITHGAREDD 1: CYFLWYNIAD I HILIAETH (10 Munud)

Wrth i chi ddarllen y nodweddion dilynol yn uchel, un ar ôl y llall, gofynnwch i'r bobl ifainc sefyll os yw'r nodwedd yn eu disgrifio nhw. Os nad yw, dylent aros ar eu heistedd.

- **Gwallt golau**
- **Brychni haul**
- **Gwisgo sbectol**
- **Llaw chwith**
- **Llygaid brown**

Pan fydd y plant sydd â llygaid brown yn sefyll, dywedwch wrthynt eich bod angen rhannu'r dosbarth a bod y rheiny sy'n dal i sefyll yn mynd i gymryd rhan mewn gweithgaredd fydd yn llawer o hwyl. Yna dywedwch fod y plant sy'n eistedd yn mynd i ysgrifennu traethawd. Gadewch i'r dosbarth ymateb i hyn. Os yw'r plant llygaid brown yn mwynhau hyn gormod, efallai y byddai'n syniad dweud eich bod wedi gwneud camgymeriad, ac mai'r plant llygaid glas fydd yn cael gwneud y gweithgaredd hwyliog! Unwaith y byddent wedi cael cyfle i ymateb, gadewch iddyn nhw wybod mai cellwair oeddech chi a gofynnwch a oedd hon yn ffordd ddoeth o rannu a gwobrwyo pobl. Gofynnwch iddynt sut deimlad oedd colli allan am fod gennych lygaid o'r lliw anghywir.

Pwysleisiwch eto mor wirion yw hyn drwy ofyn sut fyddai bywyd pe bai cymdeithas yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail y categorïau yma. Er enghraifft, beth fyddai'n digwydd os byddai pobl yn meddwl bod unrhyw un sydd â brychni haul yn llai deallus na phobl eraill? Fyddai hynny'n deg? Fyddech chi'n gallu cyfiawnhau hynny? Beth fyddai canlyniadau hynny i bobl gyda brychni haul?

Darllenwch y diffiniad nesaf o hil:

"Grŵp o bobl sy'n rhannu'r un nodweddion corfforol".

Anogwch drafodaeth gyda'r bobl ifainc gan ddefnyddio'r pwyntiau a'r cwestiynau dilynol:

Am fod modd grwpio pobl yn ôl nifer o wahaniaethau corfforol (megis y rhai yn y categorïau) mae grwpio yn ôl hil yn ffordd fympwyol a ffug o grwpio pobl.

C: Beth yw hiliaeth?

Pwyntiau allweddol i'w hannog gan y grŵp:

Gwahaniaethu yn erbyn rhywun am fod ganddynt wahanol:

- **Liw Croen** • **Cenedligrwydd** • **Crefydd** • **Diwylliant**

C: Pa fathau o hiliaeth sydd i'w cael?

C: Beth yw ystyr y datganiad "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth"?

C: Oes unrhyw un wedi clywed geiriau hiliol yn cael eu dweud wrth rywun erioed? Ymhle?

GWEITHGAREDD 2: HILIAETH A PHARCH (5 Munud)

Rhowch y gair **"Hiliaeth"** ar un wal a **"Parch"** ar y llall. Rhowch bapurau 'post-it' i'r Disgyblion a gofynnwch iddynt ysgrifennu ar rhain gymaint o eiriau ag sy'n bosibl y maent yn eu cysylltu gyda 'hiliaeth' a 'pharch' a'u glynu o amgylch y pennawd priodol.

Darllenwch drwy'r geiriau gyda'r dosbarth ac annog y syniad bod yr holl dermau sy'n gysylltiedig â hiliaeth yn negyddol, tra bo'r rheiny sy'n gysylltiedig â pharch yn bositif. Esboniwch mai dyma'r rheswm pam rydym eisiau atal hiliaeth ac annog parch.

HILIAETH A PHÊL-DROED

YN CYCHWYN AR 1'28 AC YN GORFFEN GYDA SAMUEL ETO'O: "DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH".

Mae nifer o chwaraewyr yn sôn am eu profiadau o hiliaeth o'r 1970au hyd heddiw. Unwaith y byddwch wedi sgrinio'r adran hon, efallai y byddwch eisiau annog trafodaeth yn ymwneud â'r sylwadau dilynol cyn symud ymlaen at y gweithgaredd perthnasol.

Pwyntiau Trafod:

- Sut allai clywed geiriau difrïol fel yma effeithio ar chwaraewr yn ystod y gêm?
- Ym mha ffyrdd mae sarhad hiliol yn wahanol i fathau eraill o sarhad geiriol a glywch mewn gemau pêl-droed?
- Beth yw erledigaeth y bobl ddu y mae Les Ferdinand yn cyfeirio ato?

  DS: Yn yr adran nesaf, Gwreiddiau Hiliaeth, mae archwiliad mwy manwl o'r cyd-destun hanesyddol, megis caethwasiaeth a'r mudiad hawliau sifil
- Sut fyddech chi'n teimlo petaech chi'n clywed sarhad hiliol naill ai ar y maes neu yn y standiau?

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **PAUL ELLIOTT:** Sŵn mwnci, bwian, ar ei waethaf achosion o daflu bananas
- **PAUL CANOVILLE:** Trois o gwmpas yn disgwyl gweld mai cefnogwyr y tîm arall oedd yn gwneud hyn a gwelais mai cefnogwyr fy nhîm i oedd wrthi. Roedd hyn yn brifo
- **LES FERDINAND:** Mae arwyddocâd galw rhywun yn hyn-a-hyn du yn llawer gwaeth nag arwyddocâd galw rhywun yn dew neu alw rhywun yn gochyn
- **SAMUEL ETO'O:** Bron i mi gerdded oddi ar y maes unwaith [...] roedd hi'n reit anodd gwneud dim byd – dydy pobl ddim yn sylweddoli'n aml iawn sut y gallech chi fod yn teimlo, mae'n anodd

GWEITHGAREDD 1: HILIAETH AR Y MAES (40 Munud)

Mae'r esiampl o Samuel Eto'o yn ystyried gadael y maes pan oedd pobl yn gweiddi pethau hiliol arno wrth iddo chwarae i Barcelona yn gallu bod yn sefyllfa bwerus i'w harchwilio gyda myfyrwyr hŷn. Gwahanwch y dosbarth yn chwe grŵp a rhoi'r rolau a chwestiynau nesaf iddynt i'w trafod. Ar ôl 10 – 15 munud, gofynnwch i bob grŵp ddweud beth maen nhw wedi'i benderfynu wrth weddill y dosbarth a dechreuwch drafod a yw'r disgyblion yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r dewisiadau a wnaeth y grŵp.

Samuel Eto'o

GRŴP 1: TÎM BARCELONA / ETO'O

Rydych yn aelodau o'r tîm ac rydych wedi clywed gweiddi hiliol gan rannau o'r dyrfa. Sut ydych chi'n ymateb? Beth ddylai ddigwydd i stopio cefnogwyr fel hyn?

Mae angen i chi feddwl am nifer o bethau:

- Sut ydych chi'n cefnogi'r chwaraewyr ar eich tîm sydd wedi derbyn y sarhad?
- Yn eich barn chi, beth ddylai UEFA ei wneud er mwyn:
  - Cosbi'r clwb arall a'r cefnogwyr?
  - Sicrhau bod y clwb arall yn rhwystro hyn rhag digwydd yn y dyfodol?
- A fyddwch chi'n condemnio'r sarhad mewn cyfweliadau ar ôl y gêm?
- A ddylai'r tîm fod wedi cerdded oddi ar y maes pan gychwynnodd y sarhau?

GRŴP 2: Y TÎM ARALL

Rydych yn chwaraewyr ar y tîm arall ac wedi clywed gweiddi hiliol yn dod o rannau o'r dyrfa. Sut fyddai hyn yn gwneud i chi deimlo? Beth allech chi ei wneud yn ystod y gêm ac ar ôl y gêm?

Ydych chi'n:

- Cefnogi'r chwaraewr ar y tîm arall sy'n dioddef y sarhad drwy roi anogaeth iddo?
- Cynnig gadael y maes i ddangos eich bod oll yn sefyll ynghyd ynglŷn â hyn?
- Manteisio ar y ffaith fod y digwyddiad wedi cymryd sylw'r tîm arall a gwthio ymlaen ar y maes?
- Trafod y mater gydag aelodau eich tîm ar ôl y gêm ac awgrymu trefnu protest?
- Condemnio'r rheiny oedd yn gweiddi'r sylwadau hiliol yn eich cyfweliadau ar ôl y gêm?

GRŴP 3: RHEOLWYR CLWB PÊL-DROED BARCELONA

Rydych yn aelodau o dîm rheoli Barcelona ac rydych wedi clywed gweiddi hiliol yn dod o rannau o'r dyrfa. Sut ydych chi'n ymateb i hyn?

Ydych chi'n:

- Cymryd eich tîm oddi ar y maes?
- Rhoi chwaraewyr newydd ar y maes yn lle'r rhai y mae'r dorf yn gweiddi arnynt?
- Canolbwyntio ar y gêm, anwybyddu'r hiliaeth?
- Wedyn, (sut) ydych chi'n:
  - Cefnogi'r chwaraewyr sydd wedi derbyn y sarhad?
  - Siarad gyda'r tîm cyfan ynghylch yr hyn ddigwyddodd?
  - Rhoi pwysau ar UEFA i ymateb yn gryf?

GRŴP 4: DYFARNWR

Chi yw'r dyfarnwr / llumanwr / pedwerydd swyddog ac rydych wedi clywed gweiddi hiliol gydol y gêm. Sut ydych chi'n ymateb i hyn?

Ydych chi'n:

- Cymryd y ddau dîm oddi ar y maes dros dro a chyhoeddi rhywbeth i'r dorf ar y tanoi?
  - Os felly, beth sydd angen ei ddweud?
- Peidio chwarae'r gêm o gwbl (os gwnewch chi hyn, dyma fydd y tro cyntaf y bydd rhywun wedi gwneud hyn)?
- Sôn am y sarhad yn eich adroddiad am y gêm?
- Siarad gydag aelodau o'r clwb yr oedd eu cefnogwyr yn bod yn hiliol?
- Pa ffordd/ffyrdd arall allech chi weithredu?

GRŴP 5: CEFNOGWYR

Rydych yn cefnogi unrhyw un o'r ddwy ochr ac yn clywed gweiddi hiliol yn y stadiwm drwy gydol y gêm. Sut ydych chi'n ymateb?

Ydych chi'n:

- Ceisio gweiddi'n uwch na'r bobl sy'n gweiddi sylwadau hiliol / gwneud sŵn mwnci?
- Cwyno i stiward / swyddog heddlu?
- Cwyno i swyddogion eich clwb?
- Beth arall allech chi ei wneud?

GRŴP 6: UEFA COMMITTEE

Rydych yn aelodau o Bwyllgor Disgyblu UEFA ac rydych wedi gweld a chlywed adroddiadau am hiliaeth gan wylwyr yn Sbaen. Eich gwaith chi yw penderfynu sut i ymateb. Mae gennych y pŵer i orfodi cosb ar Real Zaragoza am yr hyn mae eu cefnogwyr yn ei wneud. Yn ôl rheolau FIFA 'Mae unrhyw wyliwr sy'n difrïo'n gyhoeddus, yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun mewn ffordd ddifrïol oherwydd hil, lliw, iaith, crefydd neu wreiddiau ethnig, i gael eu gwahardd o'r stadiwm am ddwy flynedd'.

Ystyriwch y dilynol, os gwelwch yn dda, wrth wneud eich penderfyniad:

- Roedd llawer o wylwyr yn cymryd rhan mewn siantiau hiliol, sut fyddai modd gorfodi gwaharddiad ar y gwylwyr sy'n euog?
- Mae rheolau FIFA yn dweud hefyd: 'Os yw gwylwyr yn codi baneri gyda sloganau hiliol arnynt mewn gêm, bydd FIFA yn sancsiynu'r clwb neu'r gymdeithas y mae'r cefnogwyr hyn yn perthyn iddi gyda dirwy o 20,000 Ewro, o leiaf, ac yn ei gorfodi i chwarae ei gêm nesaf heb wylwyr'. Sut fyddech chi'n sicrhau bod y penderfyniad a wnewch yn ddigon cryf ond ddim yn ormodol?

Gweithgaredd Ymhelaethu:

Mae llai o hiliaeth ar feysydd pêl droed Prydain yn awr nag ydoedd 30 o flynyddoedd yn ôl: gofynnwch i'r bobl ifainc awgrymu pam fod hyn yn wir. Gallent awgrymu bod mwy o ymwybyddiaeth am hiliaeth ymysg cefnogwyr a chwaraewyr yn awr, bod mwy o ferched a theuluoedd yn mynd i gemau pêl-droed, bod mwy o chwaraewyr du yn y gêm, bod gennych stadia lle mae pawb yn eistedd, bod yr ymgyrch gwrth-hiliaeth genedlaethol Kick it Out wedi helpu, ynghyd ag ymgyrchoedd gan gefnogwyr lleol.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifainc fod wedi:

- ystyried sut mae hiliaeth yn ei ddangos ei hun mewn pêl-droed
- ystyried beth i'w wneud os ydynt yn gweld / dioddef hiliaeth mewn pêl-droed
- dysgu sgiliau negodi ac empathi
- dysgu sgiliau ymchwilio, dadlau a chyflwyno

TRAFODAETH GRŴP

GWREIDDIAU HILIAETH

YN CYCHWYN AR 5'37 AC YN GORFFEN GYDA BENJANI MWARUWARI: "DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH".

Nawr mae'r ffilm yn edrych ar wreiddiau hiliaeth – o le mae'n dod. Mae'n awgrymu bod diffyg gwybodaeth pobl yn ffactor allweddol pan fo stereoteipiau'n datblygu sy'n cael eu defnyddio gan y cyfryngau a rhai pleidiau gwleidyddol penodol.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **THIERRY HENRY:** Cyn i chi feirniadu pobl, rhaid i chi ddod i'w nabod nhw. Ceisiwch ddeall eich gilydd, dyna i gyd
- **RIO FERDINAND:** Mae plant yn edrych ar eu rhieni fel modelau rôl
- **JULIE FLEETING:** Efallai na fyddai [hiliaeth] yn rhywbeth y byddai [plant] yn credu ynddo petaen nhw'n cael y cyfle i benderfynu ar eu credoau eu hunain

Pwyntiau Trafod:

- Pam fo plant ifainc yn aml yn derbyn pobl o wahanol gefndiroedd a chrefyddau'n well nag oedolion?
- Lle mae pobl yn cael syniadau hiliol?

  Rhieni, Cyfeillion, y Cyfryngau, Stereoteipiau, Rhai gwleidyddwyr
- Sut mae pobl o wahanol liwiau, crefyddau a chenedligrwydd yn cael eu cynrychioli ar y teledu/ mewn papurau newydd, i bobl ifanc yn eu gweld?
- Oes unrhyw bobl/grwpiau sy'n elwa o geisio cadw stereoteipiau hiliol yn fyw?

GWEITHGAREDD 1: STEREOTEIPIAU

(15 Munud)

Rhowch focs ynghanol yr ystafell. Mae'r bobl ifainc yn cael darnau o bapur gyda'r brawddegau nesaf arnynt i'w cwblhau:

Cyfnod Allweddol 2

Mae pob bachgen yn...
Mae pob merch yn...

Cyfnodau Allweddol 3 a 4

Mae pob person Asiaidd yn...
Mae pob person du yn...
Mae pob person gwyn yn...
Mae pob person ifanc yn...
Mae pob Mwslim yn...
Mae pob person o Ffrainc yn...
Mae pob cefnogwr pêl-droed yn...
Mae pob dynes/menyw yn...
Mae pob dyn yn...
Mae pawb sy'n gwisgo sbectol yn...

Yna mae'r bobl ifanc yn dewis papur o'r bocs ac, yn eu tro, maen nhw'n darllen eu brawddegau allan yn uchel. Trafodwch a yw'r atebion maen nhw wedi eu rhoi yn wir. Ydyn nhw'n credu yn yr hyn maen nhw wedi'i ddweud? O ble ddaeth y syniadau yma?

GWEITHGAREDD 2: BETH SY'N DIGWYDD NESAF? (15 Munud)

Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp a rhowch un o'r senarios nesaf i bob grŵp gyda thudalen i nodi eu hatebion.

Senarios:

1. Mae grŵp o ddynion ifainc Asiaidd allan ar y stryd, yn siarad gyda'i gilydd. Mae hen ddynes yn dod tuag atynt, yn cario ei siopa ac mae hi angen mynd heibio er mwyn cyrraedd ei thŷ.

2. Mae bachgen du yn ei arddegau'n dod adref o'r ysgol un noson. Mae dau ddyn gwyn tua 25 oed gyda phennau wedi siafio yn cerdded ato.

3. Mae cwpwl gwyn ifanc yn hedfan i Wlad Groeg ar wyliau. Mae dyn mewn gwisg Fwslimaidd llawn a barf hir yn dod ar yr awyren ac yn eistedd nesaf atynt. Mae'n agor ei Qur'an ac yn dechrau darllen.

4. Mae dyn wedi cael teiar fflat ac yn sefyll ar ochr y ffordd. Mae dwy ferch yn dod allan o'u cerbyd ac yn cynnig newid ei deiar iddo.

5. Mae hen ddynes yn gweithio mewn siop bapurau newydd, mae'n mynd yn hwyr ac mae hi ar fin cau pan ddaw grŵp o 8 o bobl yn eu harddegau i mewn a phob un yn gwisgo topiau 'hwdi'.

Mae'r grwpiau'n trafod y pwyntiau dilynol am 5 munud – mae caniatâd iddyn nhw roi mwy nag un ateb/barn:

- Sut mae'r person sydd yn y sefyllfa yma'n teimlo?
- Pam eu bod nhw'n teimlo fel hyn?
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Yna mae pob grŵp yn darllen eu senarios a'u hatebion i'r dosbarth. Ar ôl i bawb wneud hyn, gofynnwch beth oedd pwrpas yr ymarfer yma. Beth mae'r senarios yma'n ei gynrychioli? Dilynwch hyn gyda thrafodaeth am stereoteipiau: Pam eu bod nhw'n achosi niwed; o ble maen nhw'n dod; ac ati.

Pwysleisiwch y dylai pobl ifainc, wrth iddynt ddarllen neu glywed rhywbeth, ystyried a yw'n ffaith neu'n stereoteip.

Gweithgaredd Ymhelaethu:

Gofynnwch i bob disgybl ysgrifennu un gair y mae rhywun wedi'i ddefnyddio i'w labelu nhw sydd ddim yn wir, pam ei fod yn anghywir a sut roedd wedi gwneud iddynt deimlo.

GWEITHGAREDD 3: Y FASNACH GAETHION DRAWSATLANTIG (25 Munud)

Fe ddatblygodd y fasnach gaethion drawsatlantig y mae'r adran hon yn cyfeirio ati, a pharhau'r ideoleg hiliol, i gyfiawnhau neu esgusodi'r nifer enfawr o Affricaniaid gafodd eu cadw fel caethweision yn ystod y cyfnod o 300 o flynyddoedd o gysylltiad Prydeinig, 1562 – 1865. Cafodd 10 – 12 miliwn o bobl o Affrica eu gorfodi o'u cartrefi a'u cymryd i blanhigfeydd yn y Caribî a Gogledd a De America yn ystod yr amser yma.

Er bod cymdeithasau megis y Groegiaid ac Ymerodraeth Rufain wedi gwneud defnydd mawr o gaethweision yn eu cartrefi, i wneud y labro a'r gwaith amaethyddol, roedd y fasnach gaethion drawsatlantig yn wahanol. Ar eu teithiau roedd yr Ewropeaid wedi canfod gwledydd oedd yn newydd iddynt ac roedd ar genhedloedd trefedigaethol megis Prydain, Ffrainc, Sbaen, yr Iseldiroedd a Phortiwgal (a llawer mwy), angen gweithwyr ar gyfer eu tiriogaethau newydd, yr oedd y mwyafrif ohonynt ar diroedd America a'r Caribî. Cynyddodd yr angen yma am fod gwladychwyr o Ewrop yn rhoi clefydau i'r bobl frodorol, ac mewn rhai achosion fe chwalwyd rhai o'r poblogaethau'n gyfan gwbl.

Byddem yn argymell y gweithgaredd ar-lein dilynol i gyflwyno cymeriadau hanesyddol pwysig ac i ddangos sut oedd amodau byw a gweithio'r caethweision: **http://www.antislavery.org/breakingthesilence/upfromslavery.shtml**

Yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau bychain a rhowch dudalen i bob grŵp sy'n rhoi'r dyfyniadau a welwch isod. Darllenwch y bywgraffiadau byr isod yn uchel i'r dosbarth, neu argraffu copïau ohonynt, yna gofynnwch i'r disgyblion gyfateb y dyfyniadau gyda'r bobl fyddai wedi'u hysgrifennu nhw ym marn y disgyblion.

Ar ôl gwneud hyn, wrth drafod, gofynnwch i'r grwpiau:

- Y rhesymau pam maent wedi cyfateb y dyfyniadau gyda phob person

Datgelwch pwy ysgrifennodd y dyfyniadau

AWDURON Y DYFYNIADAU:

1. Frederick Douglass
2. Harriet Tubman
3. David Hume
4. Olaudah Equiano
5. William Wilberforce
6. Francis Galton

OLAUDAH EQUIANO (1745-1797)

Cafodd ei wneud yn gaethwas pan oedd yn blentyn a'i gymryd oddi wrth ei deulu yn Affrica i weithio yn Barbados, yna America, ar blanhigfeydd ac, yn ddiweddarach, ar gychod. Prynodd ei ryddid ac ysgrifennodd fywgraffiad, a ddaeth yn un o'r llyfrau cyntaf i gael ei gyhoeddi gan awdur Affricanaidd. Daeth yn amlwg yn y mudiad diddymu caethwasiaeth ym Mhrydain lle daeth i fyw yn barhaol.

FRANCIS GALTON (1822-1911)

Gwyddonydd a fforiwr Prydeinig, cafodd ei urddo'n farchog yn 1909.

Cyhoeddodd fwy na 340 o bapurau a llyfrau ar amrywiaeth o bynciau. Bachodd yr ymadrodd "nature vs nurture".

HARRIET TUBMAN (1820-1913)

Cafodd ei geni i gaethwasiaeth yn yr Unol Daleithiau. Llwyddodd i ddianc yn y diwedd a dechreuodd achub caethweision eraill. Mae pobl yn amcanu ei bod wedi helpu tua 300 o bobl i ddianc i Ganada drwy'r "Rheilffordd Danddaearol", sef rhwydwaith o bobl oedd yn helpu i guddio caethweision oedd wedi dianc. Ni chafodd unrhyw un o'r bobl a helpiodd eu dal ar eu taith i ryddid.

Hi oedd y ferch gyntaf i arwain cyrch gydag arfau yn ystod Rhyfel Cartref America, ar Fehefin 2il 1863. O ganlyniad i'r cyrch, rhyddhawyd 750 o gaethweision.

DAVID HUME (1711-1776)

Athronydd, economegydd a hanesydd o'r Alban.

Ysgrifennodd nifer o lyfrau a phapurau ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys y natur ddynol, gwleidyddiaeth, crefydd a moeseg.

FREDERICK DOUGLASS (1818-1895)

Cafodd ei eni'n gaethwas yn yr Unol Daleithiau ond dihangodd yn y diwedd a daeth yn ddarlithydd ac awdur blaenllaw oedd yn gwrthwynebu caethwasiaeth. Bu'n ymweld â Phrydain ac Iwerddon i roi darlithoedd hefyd. Cododd cefnogwyr Prydeinig $700 i brynu ei ryddid oddi wrth ei gyn-berchennog. Pan aeth yn ôl i America, cyhoeddodd bapurau newydd a pharhaodd i ymgyrchu dros ddiddymu caethwasiaeth.

WILLIAM WILBERFORCE (1759 – 1833)

Gwleidydd Prydeinig ac ymgyrchwr dros ddiddymu'r fasnach gaethion. Arweiniodd yr ymgyrch i ddiddymu caethwasiaeth a chyflwynodd fesurau oedd yn gwrthwynebu caethwasiaeth yn y Senedd. Bu'n helpu i sefydlu cymdeithas ar gyfer diddymu'r fasnach gaethion gyda Granville Sharp a Thomas Clarkson, dau Ddiddymwr Prydeinig arall.

1

Peidiwch â siarad am fy nhad, am ei fod ynghudd mewn dirgelwch nad wyf erioed wedi gallu gweld trwyddo. Mae caethwasiaeth yn diddymu tadau, fel y mae'n diddymu teuluoedd. Does gan gaethwasiaeth ddim defnydd i dadau na theuluoedd, ac nid yw ei gyfreithiau'n cydnabod eu bodolaeth yn nhrefn gymdeithasol y blanhigfa.

2

Roeddwn wedi croesi'r llinell yr oeddwn wedi breuddwydio amdani cyhyd. Roeddwn yn rhydd ond doedd neb yno i'm croesawu i dir fy rhyddid, roeddwn yn ddieithryn mewn tir dieithr.

3

Rwy'n tueddu amau bod y Negroaid yn naturiol israddol i'r Gwynion. Ychydig iawn o genhedloedd gwâr o'r lliw hwnnw sydd wedi bodoli, ac yn wir unrhyw unigolyn, a oedd yn flaenllaw naill ai mewn gweithred neu mewn menter. Does dim cynhyrchwyr dyfeisgar yn eu mysg, dim celfyddyd, dim gwyddoniaeth.

4

Nawr roeddwn yn teimlo nad oedd gen i unrhyw siawns o fynd yn ôl i'm gwlad fy hun... ac roedd y teimlad yn waeth am nad oeddwn i'n gwybod beth oedd o'm blaen... cyn hir cefais fy rhoi o dan y deciau, a chlywed arogl gwaeth yn fy ffroenau nag yr oeddwn wedi'i brofi erioed yn fy mywyd: fel fy mod, gyda'r arogl ofnadwy, a'r llefain, wedi mynd mor sâl ac isel fy ysbryd nes na allwn fwyta... nawr roeddwn yn dyheu am y cyfaill olaf, marwolaeth, i'm rhyddhau; ond cyn hir, er tristwch mawr i mi, cynigiodd dau o'r dynion gwyn fwyd i mi; a phan wrthodais fwyta, daliodd un ohonynt fi mor dynn gerfydd fy nwylo, a'm rhoi i orwedd ar draws y winsh rwy'n tybio, a chlymu fy nhraed, tra bo'r llall wedi fy chwipio'n ddifrifol.

5

Roedd creulondeb y Fasnach Gaethion yn ymddangos mor ofnadwy, mor enfawr, mor ddiwella fel fy mod wedi penderfynu'n gadarn fy mod o blaid Diddymu Caethwasiaeth. Beth bynnag fyddai canlyniad hyn, penderfynais na fyddwn yn gorffwys o'r funud honno nes byddwn wedi achosi ei ddiddymiad.

6

Mae nifer fawr o ddynion y byddwn yn eu galw'n hanner call ymysg y Negroaid... Mae'r camgymeriadau roeddent yn eu gwneud yn eu materion eu hunain mor blentynnaidd, mor wirion ac mor hurt nes bod gen i gywilydd yn aml iawn o'm pobl fy hun.

- Pam fod y grwpiau wedi barnu y byddai'r gwahanol bobl yn dweud yr hyn sydd yn y dyfyniadau?
- Pam fyddai rhai pobl yn ceisio portreadu Affricaniaid fel pobl israddol i'r Ewropeaid?

Os yw'r dosbarth wedi cael y dyfyniadau gan y bobl yma'n ddiddorol, gallent ymchwilio dyfyniadau tebyg gan:

- Bobl oedd yn gaethweision
- Bobl oedd eisiau i gaethwasiaeth barhau
- Bobl oedd eisiau diddymu caethwasiaeth

Pa wybodaeth ychwanegol all y dosbarth ei chanfod am:

- Brofiadau a bywydau Harriet Tubman ac Olaudah Equiano
- Y rhwydwaith Rheilffordd Danddaearol
- Y mudiad Diddymu Caethwasiaeth
- Rhyfel Cartref America

Prosiect Ymchwilio:

Gofynnwch i bob disgybl wneud collage o bum pennawd papur newydd positif am geiswyr lloches, lleiafrifoedd ethnig gweladwy a phobl o wahanol grefyddau.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifainc fod wedi:

- dysgu edrych am dybiaethau ac ystyron cudd yn eu beirniadaethau eu hunain a beirniadaethau pobl eraill, a herio'r rhain
- defnyddio sgiliau dealltwriaeth, trafodaeth ac ymchwil
- dod i ddeall cyd-destun hanesyddol y ffordd yr oedd pobl wyn yn trin pobl ddu

TRAFODAETH GRŴP

AR HYN O BRYD MAE DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH YN CYNHYRCHU PECYN ADDYSG I ADDYSGU POBL IFAINC AM DEITHWYR. BYDD HWN AR GAEL O FISOEDD CYNNAR 2009. YN Y CYFAMSER, GWELWCH Y WEFAN HON I GAEL GWYBODAETH A GWEITHGAREDDAU DEFNYDDIOL: **http://www.passingplaces.org.uk/citizenship_resources.htm**

PROFIAD O HILIAETH

YN CYCHWYN AR 8'14 AC YN GORFFEN GYDA DOMINIQUE WALKER: "MAE FFORDD WELL BOB AMSER".

Yn yr adran hon mae chwaraewyr pêl-droed a phobl ifainc yn trafod yr amser pan oeddent hwy wedi dioddef hiliaeth a sut mae wedi gwneud iddynt deimlo. Mae rhagor o hanesion personol ar gael drwy'r ddewislen 'yn ychwanegol' ar y DVD os byddwch eisiau eu harchwilio gyda'r dosbarth.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **FREDDIE EASTWOOD:** Rydw i'n deithiwr felly mae pobl yn gallu dweud pethau hiliol wrthyf am fy ngharafán ac ati, ond mae gan bawb elfennau da a drwg a dydyn ni [deithwyr] ddim yn ddrwg i gyd
- **JOHN BARNES:** Y math mwy peryglus o hiliaeth yw'r un na allwch ei weld lle mae rhywun sydd â llai o gymwysterau na chi'n cael y swydd
- **MERCH IFANC:** Stopiodd dau fachgen a galw fy sgarff pen yn lliain sychu llestri ac roedd hynny'n hollol wirion a thrahaus
- **DOMINIQUE WALKER:** Mae casineb yn gallu cynhyrchu pethau drwg – drwy ddysgu pobl ifainc am hyn, ni fydd y pethau yma'n digwydd



Freddie Eastwood ar waith

Pwyntiau Trafod:

- Beth yw'r math o hiliaeth gudd y mae John Barnes yn sôn amdano?
  - Allwch chi feddwl am esiamplau?
  - Beth allai pobl ei wneud i frwydro yn erbyn yr hiliaeth a gewch mewn sefydliadau?
- Pam ei bod hi'n drahaus gwneud sylwadau negyddol am fath o wisg neu ddillad nad ydych yn eu deall?

  DS: Yn y DVD a Phecyn Addysg Islamoffobia, sydd ar gael gan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, mae archwiliad manylach o faterion yn ymwneud â gwahanol fathau o wisg grefyddol
- Pam ei bod hi'n hiliol gwahaniaethu yn erbyn teithwyr?
- Beth yw canlyniadau mwyaf eithafol hiliaeth a sut mae'r digwyddiadau difrifol yma'n effeithio ar y cymunedau lle maent yn digwydd?

GWEITHGAREDD 1: STORI ANTHONY WALKER

(45 Munud)

Darllenwch ac/neu argraffwch y stori a'r cyfweliad dilynol ar gyfer y bobl ifainc, yna gofynnwch iddynt ysgrifennu llythyrau at deulu Anthony Walker. Dyma rai pwyntiau y gallent eu hystyried wrth ysgrifennu eu llythyrau:

- Oes gennych chi unrhyw beth yn gyffredin gydag Anthony?
- Pe baech chi yn sefyllfa Dominique neu Gee, fyddech chi'n gallu maddau?
- Pa eiriau cefnogol allai pobl ifainc eu cynnig i deulu Anthony Walker?
- Oes gennych chi syniad allai gael ei gynnwys yng ngŵyl flynyddol Sefydliad Walker i annog pobl ifainc i barchu eu gwahaniaethau ei gilydd?

ANTHONY WALKER

AR 29 GORFFENNAF 2005, ROEDD ANTHONY WALKER A'I GEFNDER, MARCUS BINNS, YN AROS AM FWS GYDA CHARIAD ANTHONY, LOUISE THOMPSON, PAN DDECHREUODD DYN DDWEUD PETHAU HILIOL WRTHYNT.

Aeth y tri allan o'r arosfan fysiau yn Huyton, Glannau Mersi, a dechrau cerdded i arosfan fysiau arall er mwyn dianc oddi wrth y dyn oedd yn dweud pethau hiliol wrthynt. Wrth iddynt ddechrau cerdded drwy Barc McGoldrick gerllaw, ymosododd y dyn yma, a dyn arall, arnynt. Dihangodd Marcus a Louise a rhedeg i nôl help ond ni ddihangodd Anthony. Lladdwyd Anthony gan yr ymosodwyr gyda chaib eira.

Cafodd y dynion a wnaeth hyn eu dal a'u cyhuddo o lofruddio Anthony. Dedfrydwyd Michael Barton i leiafswm o 17 mlynedd ac 8 mis a dedfrydwyd Paul Taylor i leiafswm o 23 mlynedd ac 8 mis. Wrth ddedfrydu'r pâr, dywedodd Mr Justice Leveson bod y dynion wedi cyflawni "ymosodiad hiliol fyddai'n gwenwyno unrhyw gymdeithas wâr".

Ers hynny mae teulu Anthony Walker wedi sefydlu Sefydliad Anthony Walker gyda'r bwriad o godi arian ar gyfer prosiectau i hybu cytgord hiliol, integreiddiad a gwella dealltwriaeth. Mae'r Sefydliad yn trefnu nifer o ddigwyddiadau blynyddol, yn cynnwys cinio gala a Gŵyl Sefydliad Anthony Walker. Pwrpas y gweithgareddau yma yw dod â phobl o wahanol gefndiroedd ynghyd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, celfyddydol neu addysgol sy'n annog pobl i werthfawrogi'r gwahaniaethau rhyngom. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi sefydlu 'Cynllun Ysgoloriaeth Cyfraith Anthony Walker' sy'n cynnig lle i gyfreithiwr dan hyfforddiant o gefndir du neu ethnigrwydd lleiafrifol arall gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron Glannau Mersi bob blwyddyn. Roedd Anthony wedi gobeithio astudio'r gyfraith a gweithio yn y proffesiwn cyfreithiol. Roedd yn 18 oed pan gafodd ei ladd.

MEWN CYFWELIAD YN 2005, DYWEDODD GEE WALKER HYN AM EI MAB ANTHONY:

"Roedd Anthony yn mynd i fod yn llwyddiannus, rwy'n siŵr am hynny. Roedd yn cymryd pethau o ddifrif ac yn gwybod yn union beth roedd eisiau ei wneud. Doedd neb yn gallu newid ei feddwl. Roedd yn gwybod ei fod eisiau bod yn gyfreithiwr a dydw i ddim yn meddwl y byddai unrhyw beth wedi'i atal rhag gwneud hynny. Byddai'n gwylio rhaglen deledu ac yn dweud 'Os oes raid i mi adael Lloegr i fynd i America, mi wna i hynny a dod yn gyfreithiwr'."

"Roedd eisiau bod yn farnwr hefyd, oherwydd roedd wedi gweld barnwyr du yn America ac wedi dweud 'Dyna fydda i'. Roedd wrth ei fodd gyda phêl fasged. Os dewch chi i'n tŷ ni, fe welwch fod y mwyafrif o'r lluniau mewn fframiau heb wydr ynddynt, oherwydd byddai'n bownsio pêl yn y tŷ. Roedd yn gwybod nad oedd i fod i wneud hynny, ond byddai'n dal i fownsio'r bêl!"

"Roedd wrth ei fodd yn dod i'r eglwys. Roedd yn berson Duwiol ac yn cymryd hynny o ddifrif. Roedd ganddo gariad mawr at bêl fasged ac roedd yn ddifrifol iawn am Dduw."

"Cafodd dreialon ar gyfer timau pêl fasged Lerpwl a Lloegr, ond am fod y treialon ar Ddydd Sul, roedd yn rhaid iddo ddewis rhwng yr eglwys a phêl fasged. Rwy'n cofio ei fod yn llawn cyffro un diwrnod am ei fod wedi cael treialon i dîm Lloegr, ond yna sylweddolodd eu bod ar ddydd Sul a dewisodd beidio mynd. Fe ddywedodd 'Alla' i ddim mynd am fod yn rhaid mynd i'r eglwys, maen nhw fy angen i yno'."

GOFYNNWYD I GEE A DOMINIQUE OS OEDDENT YN CASÁU LLOFRUDDWYR ANTHONY AR ÔL IDDYNT GAEL EU DEDFRYDU:

Gee: "Pam ddylwn i ddioddef dedfryd am oes? Casineb laddodd fy mab, felly pam ddylwn i ddioddef casineb hefyd?"
"Mae diffyg maddeuant yn eich gwneud yn ddioddefwr a pham ddylwn i fod yn ddioddefwr? Treuliodd Anthony ei fywyd yn maddau. Roedd ei fywyd yn symbol o heddwch, cariad a maddeuant a dyma sut cafodd fy mhlant eu magu."
"Mae'n rhaid i mi fyw yn y ffordd y dysgais iddyn nhw fyw. Dydw i ddim yn teimlo chwerwedd tuag at y bobl yma, rwy'n bod yn hollol onest. Y cwbl rwy'n ei deimlo yw... tristwch dros y teulu."

Dominique: "Fe ddywedais fy mod yn maddau ac rwy'n dal i ddweud hynny am fod yn rhaid i chi. Dyna un o'r pethau a ddysgwyd i mi gan fy mam wrth i mi dyfu i fyny."
"Mae gen i biti drostynt oherwydd doedden nhw dim yn gwybod beth roedden nhw'n ei wneud, dydyn nhw ddim yn deall pa mor fawr yw'r peth yma a wnaethant."

DYWEDODD GEE WALKER BOD Y TEULU'N DAL I'W CHAEL HI'N ANODD YMDOPI GYDA MARWOLAETH ANTHONY.

Dywedodd: "Bob dydd rydym yn gofyn, lle mae ein bachgen? Bob dydd rydym yn dal i aros. Rydym yn galw ei enw, rydym yn clywed pêl yn bownsio ac mae pob un ohonom yn gwylio ac yn aros."

DYWEDODD MRS WALKER BOD EI MAB ARALL, DANIEL, WEDI CAEL EI EFFEITHIO'N ARBENNIG O DDRWG GAN FARWOLAETH ANTHONY

"Dw i'n teimlo'n drist drosto fo, yn dringo i'r bync uchaf bob nos a dydy ei frawd ddim yno. Mae'n gysgod o'r hyn ydoedd o'r blaen. Pan fyddwch yn dweud 'sut wyt ti'n teimlo?' mae'n dweud 'ar goll'.

Dydw i ddim yn gwybod sut deimlad yw bod yn uffern ond dw i'n siŵr fy mod i'n eistedd yn uffern ar hyn o bryd. Bob dydd mae'n rhaid i chi ail fyw'r boen a gobeithio yn enw Duw nad oes raid i fam arall eistedd lle'r ydw i'n awr."

GWEITHGAREDD 3: RHAGFARN ANFWRIADOL A HILIAETH SEFYDLIADOL (20 Munud)

Trafodwch y brawddegau nesaf gyda'r dosbarth:

- Mae plant du'n well am wneud chwaraeon, felly dylent gael eu hannog i astudio addysg gorfforol ac ymuno â thimau chwaraeon yr ysgol
- Mae merched yn llai tebygol o aros mewn swydd oherwydd byddent eisiau gadael i gael babi.
- Mae plant o gymdogaeth arbennig yn galed ac yn gwneud pethau drwg drwy'r amser
- Mae sgiliau ffasiwn arbennig gan ddynion hoyw
- Mae merched Tsieineaidd yn ddistaw ac addfwyn iawn, ond maen nhw'n gweithio'n galed ac yn glyfar.

Ydych chi wedi clywed pobl yn dweud y pethau yma?

Ydyn nhw'n wir, neu ai dim ond barn pobl ydyn nhw?

Sut allai'r opiniynau yma effeithio ar y bobl maen nhw'n sôn amdanynt?

Mae John Barnes yn siarad yn y ffilm am y posibilrwydd y gallai ymgeisydd gael ei wrthod ar gyfer swydd er mai yntau yw'r ymgeisydd gorau, oherwydd lliw ei groen neu ei ethnigrwydd. Mae'r math yma o hiliaeth yn gynnil ac yn anodd ei brofi ac weithiau dydy'r person sy'n achosi'r hiliaeth ddim hyd yn oed yn ymwybodol ei fod yn gwneud hynny. Trafodwch yr esiampl ddilynol gyda'r dosbarth:

Yn 2004, gwnaeth Radio 5 Live astudiaeth drwy anfon CV chwe ymgeisydd at 50 o sefydliadau oedd yn hysbysebu swyddi gwag: un gan ddyn ac un gan ferch o bob un o dri grŵp: Ewropeaidd Gwyn; Mwslimaidd Asiaidd; ac Affricanaidd Du. Roedd yr holl ymgeiswyr ffug o'r un safon o ran eu cymwysterau a'u profiad ond cafodd bob cais ei ysgrifennu a'i gyflwyno'n wahanol er mwyn gwneud iddynt edrych yn ddilys. Er bod y cyflogwyr wedi gwahodd 23 y cant o'r ymgeiswyr gwyn i gael cyfweliad, dim ond 13 oedd yn llwyddiannus o blith yr ymgeiswyr Affricanaidd Du a 9 y cant o blith y rhai Mwslimaidd.

- Beth oedd y rhesymau am hyn ym marn y dosbarth?
- Ydych chi'n meddwl bod y bobl oedd yn llunio'r rhestr fer yn ymwybodol bob amser eu bod yn gwahaniaethu yn erbyn yr ymgeiswyr Du a Mwslimaidd?
- A oes ots a oedden nhw'n ymwybodol o hyn neu beidio wrth wneud y penderfyniad?

Rhowch y diffiniad isod i'r dosbarth a gorffennwch drwy drafod y cwestiynau oddi tano.

- Beth yw sefydliad?
- Beth yw'r sefydliadau allweddol ym Mhrydain heddiw?
- Yn eich barn chi, pa effaith mae hiliaeth sefydliadol yn ei gael ar grwpiau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig a chymdeithas yn gyffredinol?
- Beth all sefydliadau ac unigolion ei wneud i geisio atal hiliaeth sefydliadol neu anfwriadol?

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifainc fod wedi:

- Meddwl am y gwahanol fathau o hiliaeth
- Meddwl am y bobl sy'n dargedau hiliaeth ar hyn o bryd
- gweld bod gweithredoedd yn creu canlyniadau
- dysgu a defnyddio sgiliau empathi, ymchwilio ac ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa benodol.

TRAFODAETH GRŴP

HILIAETH SEFYDLIADOL YW:

PAN FO SEFYDLIAD HEB DDARPARU GWASANAETH PROFFESIYNOL A PHRIODOL I BOBL OHERWYDD EU LLIW, DIWYLLIANT NEU WREIDDIAU ETHNIG. GALL POBL WELD YR HILIAETH NEU EI GANFOD MEWN PROSESAU, AGWEDDAU AC YMDDYGIAD SY'N CREU GWAHANIAETHU DRWY RAGFARN ANFWRIADOL, ANWYBODAETH, BOD YN DDIFEDDWL A STEREOTEIPIO HILIOL SY'N RHOI POBL O LEIAFRIFOEDD ETHNIG DAN ANFANTAIS. MAE'N PARHAU AM NAD YW'R SEFYDLIAD WEDI CYDNABOD EI FOD YN BODOLI, NA CHYDNABOD YR HYN SY'N EI ACHOSI, AC AM NAD YW WEDI MYND I'R AFAEL AG O'N DDIGONOL AC YN AGORED DRWY EI BOLISÏAU, ESIAMPLAU AC ARWEINIAD.

(ADRODDIAD MACPHERSON 1999)

YMDRIN Â HILIAETH

YN CYCHWYN AR 12'52 AC YN GORFFEN GYDA PEDRO MENDES: "DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH".

Yn yr adran hon, mae chwaraewyr yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ymateb i hiliaeth wrth ddod ar ei draws ac maent yn cynnig cyngor i bobl ifainc sy'n dioddef hiliaeth a phobl ifanc sy'n ymddwyn mewn ffordd hiliol.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **DIDIER DROGBA:** Mae'n rhaid i chi deimlo'n falch o'r hyn ydych – peidiwch â dechrau ymddwyn tuag atyn nhw yn y ffordd maent yn ymddwyn atoch chi, nid dyna'r ateb cywir
- **RIO FERDINAND:** Y person sy'n rheoli yw'r person gorau i fynd ato/ati fel ei fod/bod yn gallu atal yr hiliaeth ar unwaith
- **RYAN GIGGS:** O edrych arnaf i fyddech chi byth yn meddwl bod fy nhad yn ddu ond roedd pobl yn [hiliol] tuag ataf pan oeddwn yn iau. Roeddwn yn fachgen distaw a swil – pe gallwn i droi'r cloc yn ôl byddwn wedi gwneud pethau'n wahanol, wedi dweud wrth yr athrawon ac wrth mam a dad
- **DEAN ASHTON:** Os yw rhywun yn bod yn hiliol mae'n rhaid iddynt roi eu hunain yn esgidiau'r person arall a dychmygu sut y bydden nhw'n teimlo pe bai rhywun yn eu sarhau nhw neu eu teulu
- **ANITA ASANTE:** Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr eich bod yn dweud wrth rywun am bethau fel hyn neu bydd y mathau yma o sefyllfaoedd yn parhau i godi

Pwyntiau Trafod:

- Beth yw'r broblem gyda pheidio ymateb ac anwybyddu hiliaeth?
- Beth allech chi ei wneud i helpu i atal hiliaeth? Yn y fan yma, gallech siarad am bolisi gwrth-hiliaeth eich ysgol:
  - Ydy'r bobl ifainc yn gwybod beth ydyw?
  - Ydy'r dosbarth yn gwybod bod gan ysgolion a chyrff cyhoeddus eraill ddyletswydd gyfreithiol i hybu cydraddoldeb hiliol ers cyflwyno Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000?
  - At bwy ddylen nhw fynd os byddent yn gweld / yn dioddef digwyddiad a sbardunwyd gan hiliaeth?
  - Beth yw'r effeithiau wedyn ar y bobl hynny a gymerodd ran?
  - A fydden nhw'n gwneud unrhyw newidiadau?
- Nawr trafodwch sut mae'r gymdeithas ehangach yn ymdrin â hiliaeth:
  - Pwysleisiwch y ffaith fod yr heddlu'n trin unrhyw drosedd sydd wedi'i sbarduno gan gasineb hiliol yn ddifrifol iawn ac y bydd unrhyw ddedfryd am y drosedd yn fwy difrifol nag un ar gyfer trosedd debyg sydd heb sail hiliol
- Pa effaith mae hiliaeth / trosedd hiliol yn ei gael ar gymuned?
  - Creu ofn a rhannu'r bobl

Dean Ashton

Ryan Giggs

GWEITHGAREDD 1: ESTYN ALLAN
(10 Munud)

Pe baech chi'n gwnsler mewn ysgol a bod disgybl yn dod atoch mewn dagrau am fod rhywun wedi dweud pethau hiliol wrtho, beth fyddech chi'n ei wneud i helpu'r sefyllfa? Beth allech chi ei ddweud wrth rywun sydd wedi dioddef hiliaeth? Beth fyddech chi'n ei wneud a/neu ei ddweud wrth y person sydd wedi bod yn hiliol? Fyddech chi'n rhoi gwybod i weddill y staff dysgu, y disgyblion eraill a/neu'r rhieni? Sut a pham?

GWEITHGAREDD 2: ASTUDIAETHAU ACHOS

O ddewislen y DVD gallwch wylio cyfweliadau hirach gyda rhai chwaraewyr. Gallwch ddefnyddio'r rhain fel mannau cychwyn ar gyfer chwarae rôl, rhewi'r tâp a thrafod. Edrychwch ar wefan Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth i gael rhagor o nodiadau dysgu: **www.theredcard.org**.

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifainc fod wedi:

- Defnyddio sgiliau penderfynu a dangos empathi
- Ystyried a gwerthuso'r hyn y gallai unigolion, ysgolion a chymunedau ei wneud i frwydro yn erbyn hiliaeth
- Datblygu dealltwriaeth gychwynnol o'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â gwahaniaethu hiliol

TRAFODAETH GRŴP

YMGYRCHU YN ERBYN HILIAETH

YN CYCHWYN AR 16'14 AC YN GORFFEN GYDA GARY LINEKER "DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH".

Mae adran olaf y ffilm yn archwilio'r hyn sy'n cael ei wneud i frwydro yn erbyn hiliaeth, y pethau y gellid eu gwneud a sut gall pêl-droed helpu i frwydro yn erbyn barnau hiliol.

SYLWADAU ALLWEDDOL:

- **JULIE FLEETING:** Pan ddewch at eich gilydd mewn tîm pêl-droed rydych naill ai'n dod ymlaen gyda'r bobl eraill yn eich tîm neu rydych yn colli
- **MATTHEW TAYLOR:** Does dim ots pa liw ydych chi nag o ba wlad y dewch, os gallwch chwarae pêl-droed cewch fod yn ein tîm
- **GARETH SOUTHGATE:** Roedd pobl o lu o wahanol wledydd ac o bob crefydd posibl yn fy nhîm, ac roedd pobl yn cydweithio, yn mwynhau eu cwmni ei gilydd ac yn parchu credoau a chrefyddau pawb arall
- **MIDO:** Dylech drin person yn ôl y math o berson ydyw, a sut mae'n eich trin chi, nid oherwydd y wlad mae'n dod ohoni neu ei liw neu grefydd
- **ANITA ASANTE:** Y peth pwysicaf yw parch, parch, dim ond parch

Pwyntiau Trafod:

- Sut allwn ni ddysgu am bobl o wahanol liwiau, gwledydd, diwylliannau a chrefyddau?
- Pa rannau o fywyd heblaw pêl-droed sy'n dod ag ystod amrywiol o bobl at ei gilydd?
- Sut ydyn ni'n cael budd o wahanol ddiwylliannau a beth allwn ni ei ddysgu ganddynt?
- Ym mha ffordd allwn ni ddangos parch tuag at bobl eraill?
- Pa ffactorau fyddech chi'n eu hystyried wrth benderfynu sut i drin rhywun neu wrth benderfynu a ddylech fod yn ffrindiau gyda rhywun?

UCHOD: **Anita Asante**

CHWITH: **Mido**

GWEITHGAREDD 1: GLÔBINGO (BINGO'R GLÔB)

(25 Munud)

Cyn i chi ddechrau'r ymarfer, gofynnwch i'r bobl ifainc a ydynt yn credu bod gwledydd a diwylliannau eraill wedi effeithio ar eu bywydau mewn unrhyw ffordd.

Dewch o hyd i bobl yn yr ystafell sy'n ateb y disgrifiadau dilynol – ceisiwch ganfod person gwahanol a gwlad wahanol ar gyfer pob un ac ysgrifennwch y manylion yn y bocs perthnasol. Pan fyddwch wedi cwblhau pob bocs, gwaeddwch: **GLÔBINGO!**

Unwaith y byddent wedi gorffen y gweithgaredd, ewch drwy eu hatebion gyda'r dosbarth: gofynnwch i'r bobl ifainc a oeddent wedi'u synnu gan rai o'r pethau maent wedi'u canfod ac a fyddent yn awr yn hoffi ail ystyried eu hatebion i'r cwestiwn gwreiddiol.

Allan nhw feddwl am unrhyw ffyrdd eraill y maent diwylliannau eraill wedi dylanwadu arnyn nhw e.e.: cerddoriaeth, cyfeillion, celf a thechnoleg? Gofynnwch iddynt feddwl am y cymysgedd o bobl yn eu hoff dîm pêl-droed neu raglen deledu. Dychmygwch hyn: os na fyddai pobl wedi dod i Brydain o wledydd eraill dros y blynyddoedd, sut fyddai bywyd yma?

Byddai rhai grwpiau hiliol yn hoffi ein gweld yn byw mewn cymdeithas gydag un diwylliant yn hytrach na bod mewn cymdeithas amlddiwylliannol. Beth fyddai'r bobl ifainc yn ei golli o'u bywydau, os na fyddai pethau o ddiwylliannau eraill ar gael yn ein cymdeithas? Ydyn nhw'n meddwl ei bod hi'n well byw mewn cymdeithas un diwylliant neu mewn cymdeithas amlddiwylliannol?

Pe bai'r grwpiau yma'n cael eu ffordd, pa effaith fyddai hyn yn ei gael ar hoff dimau pêl-droed y myfyrwyr?

ESIAMPL:

Rhywun sy'n gwybod beth yw prif ddinas 5 gwlad wahanol

Enw:

Gwledydd:

A) Rhywun sydd â chyfaill neu berthynas sy'n byw mewn gwlad arall

Enw:

Gwlad:

B) Rhywun sy'n gallu dweud helo mewn iaith arall

Enw:

Gwlad:

C) Rhywun sy'n gwisgo rhywbeth gafodd ei wneud mewn gwlad arall

Enw:

Gwlad:

D) Rhywun sydd â rhiant/berthynas gafodd eu geni mewn gwlad arall

Enw:

Gwlad:

E) Rhywun sy'n gallu enwi seren o fyd chwaraeon sy'n dod o wlad arall

Enw:

Gwlad:

F) Rhywun sy'n mwynhau bwyd o wlad arall

Enw:

Gwlad:

G) Rhywun sydd wedi teithio i wlad arall eleni

Enw:

Gwlad:

H) Rhywun sydd wedi gweld rhaglen deledu o wlad arall yr wythnos hon

Enw:

Gwlad:

Gareth Southgate

Prosiect

Caiff y bobl ifainc weithio mewn grwpiau i roi cynnig ar rai o'u syniadau e.e.:

- Ysgrifennu erthyglau papur newydd neu storïau am hiliaeth
- Trefnu digwyddiad gwrth-hiliaeth yn yr ysgol
- Cynnal gwasanaeth gwrth-hiliaeth
- Sefydlu grŵp cefnogi lle mae cyfoedion yn helpu pobl sydd wedi dioddef bwlio hiliol
- Sefydlu gwefan neu we-dudalen gwrth-hiliaeth
- Cymryd rhan yn y gystadleuaeth DCCiH flynyddol

Gweithgareddau ymhelaethu:

1. Gofynnwch i'r bobl ifainc ysgrifennu darn byr yn disgrifio sut fyddai bywyd os na fyddai pobl o wledydd eraill wedi dylanwadu ar ein bywydau ni heddiw
2. Mae pêl-droed yn esiampl ragorol o'r ffordd mae pobl o bob math o gefndiroedd yn cydweithio fel tîm – gofynnwch i'r bobl ifainc ganfod a nodi gwlad wreiddiol a chrefydd y chwaraewyr yn eu hoff dîm pêl-droed

Canlyniadau Dysgu

Dylai'r bobl ifainc fod wedi:

- Ystyried effaith amlddiwylliannu ar eu bywydau
- Gwerthuso manteision cymdeithas/cymuned amlddiwylliannol
- Arfarnu ffyrdd o gynyddu eu rhyngweithio gyda phobl sy'n wahanol iddynt hwy

TRAFODAETH GRŴP

HYSBYSEB



AR GAEL YN Y GYMRAEG YN AWR – GWANWYN 2010

ISLAMOFFOBIA

DVD a Phecyn Addysg

Mae hefyd yn cynnwys diweddariad ar DVD o'r ffilm **'Lle Diogel'**

£30 gan gynnwys cludiant



AR GAEL GAN
DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML

C: Beth yw hil?

A: Yn y gorffennol roedd pobl yn credu bod gwahanol hiliau o bobl, oedd yn rhannu'r un nodweddion corfforol megis lliw croen, math o wallt, nodweddion wyneb, cymeriad a sgiliau. Mae pobl hiliol wedi defnyddio'r syniad yma i labelu 'hiliau' penodol fel rhai sy'n sylfaenol wahanol ac israddol.

Ond, gan ddefnyddio geneteg, rydym yn gwybod erbyn hyn mai dim ond un hil ddynol sydd a'n bod i gyd yn perthyn i honno. Rydym yn gwybod bod yr un potensial gan bobl o bob lliw a llun. Mae'r gwahaniaethau corfforol rhwng pobl o bob rhan o'r byd yn allanol nid yn fewnol ac maent wedi datblygu wrth i bobl orfod addasu i wahanol amgylcheddau dros gyfnodau hir o amser.

Mae'r genynnau sy'n cario cod ein hymddangosiad corfforol yn fach iawn eu nifer ac nid ydynt wedi'u cysylltu mewn unrhyw ffordd â'r genynnau sy'n cario'r cod ar gyfer nodweddion eraill. Mae'r gwahaniaethau genetig rhwng yr 'hiliau' yn llai na'r gwahaniaethau o fewn y grwpiau yma.

C: Beth yw hiliaeth?

A: Er bod hil yn syniad cymdeithasol mympwyol, mae hiliaeth yn beth real iawn. Hiliaeth yw'r gred fod pobl sydd â gwahanol liw croen, sy'n deillio o wlad wahanol neu sydd â diwylliant gwahanol yn israddol i eraill. Mae syniadau hiliol wedi datblygu dros filoedd o flynyddoedd ac mae pobl wedi defnyddio'r syniadau yma i gyfiawnhau gormesu nifer o wahanol grwpiau o bobl.

C: Pa fathau o hiliaeth sydd i'w cael?

A: Gallwch gael pob math o hiliaeth, yn amrywio o sarhad geiriol i ymosodiadau corfforol ar berson neu eiddo. Mae hiliaeth yn gallu bod yn ddi-eiriau hefyd, er enghraifft peidio rhoi swydd neu le mewn bwyty neu siop i berson o ethnigrwydd lleiafrifol oherwydd eu hil, eu lliw neu eu cenedligrwydd a dim rheswm arall. Yr enw ar hyn yw gwahaniaethu hiliol ac mae'n anghyfreithlon.

Mae 'hiliaeth sefydliadol' i'w gael hefyd. Ystyr hyn yw bod trefnau a pholisïau sefydliad yn creu anfantais i bobl o leiafrifoedd ethnig. Mae ymholiad Stephen Lawrence wedi diffinio hiliaeth sefydliadol fel "methiant sefydliad cyfan i ddarparu gwasanaeth priodol a phroffesiynol i bobl oherwydd eu lliw, eu diwylliant neu eu gwreiddiau ethnig. Gall pobl weld yr hiliaeth neu ei ganfod mewn prosesau, agweddau ac ymddygiad sy'n creu gwahaniaethu drwy ragfarn anfwriadol, anwybodaeth, bod yn ddifeddwl a stereoteipio hiliol sy'n rhoi pobl o leiafrifoedd ethnig dan anfantais."

I geisio diddymu'r math yma o hiliaeth, crëwyd cyfreithiau sy'n ceisio sicrhau bod cyrff megis ysgolion, prifysgolion, ysbytai, yr heddlu, adrannau'r llywodraeth a chynghorau lleol yn gweithredu (yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol) i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o leiafrifoedd ethnig, a ydynt yn aelodau o'r staff neu'n aelodau o'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus yn ateb anghenion pawb.

C: Pam mae hiliaeth yn anghywir?

A: Mae hiliaeth yn anghywir am ei fod yn beirniadu person a'u galluoedd ar sail cyfres gyfyngedig iawn o gategorïau, megis crefydd neu genedligrwydd. Mae hyn yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth a grwpio pobl a diwylliannau. Mae hefyd yn annog gelyniaeth tuag at unrhyw berson sydd â chefndir gwahanol. Mae hiliaeth yn dysgu pobl i'w casáu ei gilydd ar sail lliw eu croen, eu cenedligrwydd neu eu diwylliant er ein bod oll yn perthyn i un hil – yr hil ddynol. Mae'n llawer gwell byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol a dylid annog y myfyrwyr i feddwl am y pethau fyddai'n cael eu cymryd o ddiwylliant Prydain pe baen ni'n byw mewn cymdeithas sydd wedi'i gwahanu – e.e. gwahanol fathau o gerddoriaeth, bwyd a dillad. Yn hanesyddol, defnyddiwyd hiliaeth i wahanu a didoli pobl o wahanol liw croen, er enghraifft dan y drefn apartheid yn Ne Affrica, a ddaeth i ben yn 1994 ac sydd hefyd wedi bod yn sail ar gyfer cyfiawnhau hil-laddiad ofnadwy megis holocost yr Ail Ryfel Byd.

Mae bywydau llawer o bobl yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan hiliaeth a gwahaniaethu bob dydd ac nid oherwydd camdriniaeth eiriol neu gorfforol yn unig. Dydy llawer o bobl o leiafrifoedd ethnig ddim yn cael yr un cyfleoedd â phobl eraill, a gall hynny fod mewn perthynas â swyddi, addysg neu ddefnyddio'r gwasanaethau iechyd, neu dai fforddiadwy. Mae'n amlwg nad yw hyn yn deg nac yn gywir oherwydd dylai pawb gael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

C: Pam ei bod hi'n anghywir defnyddio'r geiriau 'Paci' neu 'Tsinci'?

A: Mae llawer o bobl yn ystyried y rhain yn dalfyriadau o 'Pacistanaidd' a 'Tsieineaidd', ond mae pobl wedi defnyddio'r geiriau yma'n aml fel sarhad ac wedi eu defnyddio gyda rhegfeydd neu eiriau cas eraill. Felly maent yn eithriadol greulon ac nid yw'n dderbyniol defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio person o wreiddiau Pacistanaidd neu Tsieineaidd neu i ddisgrifio sefydliad sy'n cael ei redeg gan rywun o wreiddiau Pacistanaidd neu Tsieineaidd.

Mae defnyddio'r geiriau hyn yn awgrymu nad yw person yn meddwl am bobl eraill fel unigolion a'u bod yn barnu pobl yn ôl y ffordd maen nhw'n edrych neu'r wlad maen nhw'n dod ohoni, yn hytrach na phwy ydynt. Gofynnwch i ddisgyblion a fyddent yn hoffi i ddisgyblion eraill yn eu

hysgol feddwl amdanyn nhw yn y ffordd yma a'u beirniadu ar y ffordd maent yn edrych yn unig?

Hefyd, mae'r ddau air yn tueddu cael eu defnyddio'n gyffredinol am bobl Asiaidd, beth bynnag fo eu gwreiddiau cenedlaethol. Mae pobl o India a Bangladesh yn cael eu galw'n 'Paci' a phobl o Korea neu Japan yn cael eu galw'n 'Tsinci'. Felly, yn ogystal â bod yn gas, efallai nad yw'r termau'n cyfeirio at y wlad gywir hyd yn oed. Meddyliwch mor wirion y byddech chi'n ymddangos i bobl eraill pe baech chi'n galw rhywun o'r Almaen yn Sbaenwr, er enghraifft.

C: Pam mae pobl yn hiliol?

A: Mae llawer o resymau pam mae pobl yn hiliol. Mae agweddau a barn llawer o bobl wedi'u ffurfio yn ystod eu plentyndod. Os yw rhywun yn cael ei ddysgu i fod yn hiliol o oedran cynnar gan aelod o'r teulu, er enghraifft, mae'r agweddau yma'n debygol o aros gyda'r person gydol eu bywydau. Yn aml iawn, pan fyddwch yn gofyn i bobl hiliol esbonio pam eu bod yn casáu pobl o wahanol liw croen, cenedligrwydd neu ddiwylliant, dydyn nhw ddim yn gallu esbonio pam. Yn aml iawn, mae pobl hiliol yn defnyddio pobl sydd â chefndir ethnig gwahanol i feio eu problemau arnynt a dweud pethau negyddol a chyffredinol am y grŵp cyfan o bobl. Mae'r sylwadau hiliol "Maen nhw'n cymryd ein swyddi a'n cartrefi" yn un o'r sylwadau sy'n cael eu defnyddio amlaf fel 'cyfiawnhad' am hiliaeth. Dydy hyn ddim yn wir.

Mae'r cyfryngau'n gallu creu storm o hiliaeth hefyd. Edrychwch ar rai o'r cyrchoedd diweddar yn erbyn ceiswyr lloches yn rhai o bapurau newydd Prydain. Mae straeon sy'n rhedeg yn gyson am geiswyr lloches 'ffug' a defnydd cyson o iaith emosiynol megis 'llif' o ffoaduriaid, yn helpu i greu awyrgylch o gasineb ymysg rhannau o'r cyhoedd. Prydain yw'r ddegfed wlad yn Ewrop o ran y nifer o geisiadau am loches a geir i bob pen o'r boblogaeth. Mae'r mwyafrif llethol o ffoaduriaid yn mynd i wledydd yn y Dwyrain Canol neu Affrica, ac yn aml maent yn mynd i'r gwledydd sydd ar ffin eu gwledydd nhw. Mae ceiswyr lloches yn y DU yn derbyn 70% yn unig o'r cymhorthdal atodi incwm. Er bod llawer ohonynt wedi'u haddysgu'n dda a sgiliau gwych ganddynt, ac er eu bod eisiau cyfrannu at y gymdeithas, dydyn nhw ddim yn cael gweithio.

C: Ydy pobl gwyn yn dioddef hiliaeth?

A: Gall pobl o bob lliw croen gael eu sarhau'n hiliol. Weithiau mae pobl gwyn yn cyfeirio hiliaeth at bobl gwyn eraill – er enghraifft, mae pobl Iwerddon wedi dioddef gwahaniaethu hiliol. Ond, yn gyffredinol, nid pobl gwyn yw'r targed ac maent yn sicr yn derbyn llai o hiliaeth na phobl Ddu neu Asiaidd. Y math mwyaf cyffredin o hiliaeth yn erbyn pobl gwyn yn y DU yw yn erbyn ceiswyr lloches, teithwyr neu bobl yn mudo o Ddwyrain Ewrop.

C: A yw Islam yn fygythiad i Brydain?

A: Gallwch ddehongli pob llyfr crefyddol mewn nifer o ffyrdd: gallwch wneud hyn gyda'r Beibl a hefyd gyda'r Qur'an. Mae eithafwyr ymhob ffydd. Mae llond llaw o glerigwyr Mwslimaidd yn derbyn llawer o sylw gan y wasg ond mae'r mwyafrif llethol yn pregethu crefydd heddychlon. Ni allwch feio pob Mwslim am weithredoedd rhai ohonynt. Mae Prydain wedi dioddef terfysgaeth Gatholig ac Anglicanaidd hefyd mewn blynyddoedd diweddar ond ni roddwyd y bai ar bob person Catholig am bob un o fomiau'r IRA.

C: Beth allwch chi ei wneud pan fydd hiliaeth wedi'i dargedu tuag atoch chi?

A: Os ydych yn ddisgybl ysgol ac mae rhywun yn dweud pethau hiliol wrthych, dylech ddweud wrth eich rheini ac athro neu athrawes. Os yw'n ymosodiad corfforol arnoch chi'n bersonol, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth athro/athrawes, eich rhieni a chymaint o'ch cyfeillion ag sy'n bosibl. Mae pobl hiliol yn llawer gwannach pan fyddent yn sylweddoli nad oes ganddynt lawer o gefnogaeth.

Os ydych yn hŷn ac yn dioddef hiliaeth yn y gweithle, dylech ddweud wrth eich cyflogwr a'ch cyfeillion. Mae gan ysgolion a chyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i gymryd pob digwyddiad hiliol o ddifrif ac maent yn sicr o weithredu. Beth bynnag fo eich oedran, os bydd rhywun yn ymosod arnoch yn gorfforol, mae hefyd yn bwysig cysylltu â'r heddlu.

C: Beth allwch chi ei wneud pan glywch hiliaeth wedi'i gyfeirio at bobl eraill?

A: Os byddwch yn clywed un o'ch cyfeillion yn dweud pethau hiliol cas tuag at rywun arall, byddwch yn ddigon dewr i ddweud wrthynt eich bod yn anghytuno. Ceisiwch ofyn pam eu bod yn gwneud hyn ac, os ydynt yn gyfaill i chi, byddent yn gwrando arnoch a, gobeithio, yn newid eu hymddygiad. Ceisiwch eu perswadio i ymddiheuro. Os nad yw hyn yn gweithio, gofynnwch i chi'ch hun pam eich bod yn gyfaill gyda'r person yma. Dylech hefyd roi gwybod am ddigwyddiadau i athrawon a rhieni oherwydd maent hwy mewn gwell sefyllfa i ddelio â nhw.

Os byddwch yn clywed hiliaeth mewn gêm bêl-droed, nodwch rif sedd y person a rhoi gwybod i stiward neu swyddog o'r heddlu am eu hymddygiad. Dylai'r clwb ddelio â nhw, mae siantio hiliol yn anghyfreithlon mewn meysydd pêl-droed a bydd hyn yn arwain at wahardd y person hiliol rhag dod i'r maes. Os oes ganddynt docyn tymor, bydd y clwb yn cymryd hwn oddi arnynt.

Gweithgaredd Ymhelaethu: Hanes, Arwyr a Modelau Rôl Du

I lawer o bobl ifainc, caiff pêl-droedwyr eu trin fel modelau rôl ac arwyr ac mae'n debyg mai dyma un o'r ychydig amseroedd pan fo pobl yn ystyried pobl Asiaidd neu Ddu yn y ffordd yma. Yn hanesyddol, mae ein llyfrau hanes wedi tueddu peidio edrych ar y cyfraniad positif y maent wedi'i wneud i ddigwyddiadau Prydeinig a byd-eang.

Ar gyfer prosiect dosbarth, neu fel tasg gwaith cartref i'r unigolyn, gofynnwch i'r disgyblion ymchwilio bywyd a gwaith ffigurau Du neu Asiaidd nodedig. Gallech rannu'r canlyniadau gyda gweddill y dosbarth neu eu defnyddio i greu arddangosiad ar y wal.

ESIAMPLAU POSIBL

- **Nelson Mandela** - Actifydd dros hawliau sifil a Llywydd De Affrica
- **Martin Luther King** - Arweinydd hawliau sifil Americanaidd
- **Mahatma Gandhi** - Ymgyrchydd enwog ac actifydd hawliau dynol
- **Amir Khan** - Bocsiwr, Enillydd Medal Arian Olympaidd
- **Arthur Wharton** - Pêl-droediwr du cyntaf Prydain



Amir Khan

- **Mary Seacole** - Nyrs yn Rhyfel y Crimea
- **Billie Holliday** - Cantores Jazz a Blues
- **Colin Powell** - Cyn-ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yr Unol Daleithiau
- **Rosa Parks** - Protestiwr hawliau dynol yn America
- **Thierry Henry** - Pêl-droediwr Ffrengig
- **Kofi Annan** - Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig
- **Kelly Holmes** - Athletwr Prydeinig ac Enillydd Medal Aur Olympaidd
- **Leona Lewis** - Enillydd 'X Factor'
- **Tim Campbell** - enillydd 'The Apprentice' gydag Alan Sugar
- **David Lammy** - AS i Tottenham, Gweinidog dros Ddiwylliant
- **Mohammed Ali** - Bocsiwr
- **Pele** - Pêl-droediwr o Frasil

Thierry Henry

ATEBION Y CWIS:

1. a 2. d 3. d 4. b 5. c 6. a 7. d 8. c 9. b 10. b 11. a 12. d 13. b 14. d 15. c

Y PÊL-DROEDWYR A WELWYD: GARY LINEKER; RYAN GIGGS; ASHLEY COLE; BARRY FERGUSON; PAUL ELLIOTT; PAUL CANOVILLE; LES FERDINAND; JUSTIN HOYTE; SAMUEL ETO'O; THIERRY HENRY; RIO FERDINAND; JULIE FLEETING; DIMITAR BERBATOV; JERMAIN DEFOE; BENJANI MWARUWARI; FREDDIE EASTWOOD; JOHN BARNES; DAVID NUGENT; DIDIER DROGBA; ANITA ASANTE; DEAN ASHTON; WES BROWN; DARREN FLETCHER; PEDRO MENDES; MATTHEW TAYLOR; KOLO TOURE; GARETH SOUTHGATE; MIDO; HOPE POWELL; OBAFEMI MARTINS; CRAIG GORDON; GARETH BALE; AARON LENNON; LOUIS SAHA.

CWIS

1. 'Hiliaeth' yw pan mae pobl yn cael eu trin yn wael oherwydd:

a) Lliw eu croen, eu cenedligrwydd neu eu diwylliant
b) Eu pwysau
c) Eu hanabledd
d) Eu gallu yn yr ysgol

2. Beth wnaeth Samuel Eto'o pan oedd y cefnogwyr yn gweiddi geiriau hiliol cas?

a) Cerdded oddi ar y maes a gadael y gêm
b) Taflu pethau at y dorf
c) Eistedd i brotestio
d) Bu bron iddo gerdded i ffwrdd, ond llwyddodd i barhau a gorffen y gêm

3. Lle cafodd chwaraewyr Lloegr gamdriniaeth hiliol yn 2004?

a) Ffrainc
b) Yr Almaen
c) Yr Eidal
d) Sbaen

4. Mae Thierry Henry yn dweud bod angen dod i adnabod pobl a'u deall nhw a'u diwylliant cyn eu beirniadu. Beth yw ystyr diwylliant?

a) Rhaglen deledu
b) Ffordd o fyw, yn cynnwys moesau, gwisg, iaith, crefydd, bwyd a chelf
c) Anifeiliaid
d) Math o ddiod

5. Os byddwch yn clywed sarhad hiliol yn yr ysgol dylech:

a) Ei anwybyddu
b) Daro'r person ddywedodd y geiriau
c) Ddweud wrth athro/athrawes
d) Ymuno yn y sarhau

6. Mae John Barnes yn dweud mai math peryglus o hiliaeth yw pan:

a) Na fyddwch yn llwyddo i gael swydd oherwydd eich ethnigrwydd
b) Fyddwch yn cael gormod o waith cartref
c) Fydd rhywun yn eich taro
d) Mae'n rhaid i chi gerdded i'r gwaith

7. Am beth oedd tad Ryan Giggs yn enwog?

a) Chwarae criced
b) Roedd yn ganwr
c) Roedd yn gyflwynydd teledu
d) Roedd yn chwarae rygbi

8. Beth ddylech chi ei wneud os byddwch yn clywed geiriau hiliol mewn gêm bêl-droed?

a) Ei anwybyddu
b) Ymuno yn y sarhau
c) Dweud wrth stiward neu swyddog heddlu
d) Symud i ffwrdd oddi wrth y bobl hiliol

9. Pwy oedd y prif grwpiau o bobl gafodd eu herlid a'u llofruddio gan Natsïaid yr Almaen?

a) Actorion
b) Iddewon a Sipsiwn
c) Cantorion a chyfansoddwyr
d) Du ac Asiaidd

10. Mae Anita Asante yn siarad ar y ffilm, am beth mae hi'n adnabyddus?

a) Mae hi'n wraig i bêl-droediwr
b) Mae hi'n chwarae pêl-droed i Loegr
c) Mae hi'n gyflwynydd teledu
d) Mae hi'n gantores

11. Mae Freddie Eastwood yn bêl-droediwr enwog sy'n dioddef hiliaeth am ei fod yn:

a) Deithiwr
b) Ddu
c) Asiaidd
d) Dod o Ddwyrain Ewrop

12. O le gall pobl gael syniadau hiliol?

a) Teledu
b) Rhieni a ffrindiau
c) Papurau newydd
d) Yr uchod i gyd

13. Pam fod Dominique Walker yn y ffilm?

a) Mae hi'n chwarae pêl-droed
b) Cafodd ei brawd ei ladd mewn ymosodiad hiliol
c) Mae hi'n gyflwynydd ar y teledu
d) Mae hi'n wraig i bêl-droediwr

14. Sawl cyn-bêl-droediwr a phêl-droediwr presennol sy'n siarad yn 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'?

a) 16 b) 23 c) 28 d) 34

15. Beth yw'r tri gair pwysig sy'n ymddangos ar ddiwedd y ffilm?

a) Canu, dawnsio a chwarae
b) Darllen, ysgrifennu ac astudio
c) Dysgu, deall a pharchu
d) Sgipio, rhedeg a neidio

ATEBION AR DUDALEN 20

PRIF NODDWYR DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH:

I'w ddefnyddio gyda'r DVD
DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

cyfieithu a chysodi
WORDSapart.co.uk
translating & typesetting

NDS3458/22.09.08/PB